# Adeiladu tŵr - Cynllun gweithgaredd

## Paratoi

Argraffwch a thorrwch allan y cardiau myfyrio.

Crëwch dri arwydd pris (20c, 75c a £1)

## Adnoddau

Sbageti heb ei goginio

Malws melys

Bandiau elastig

## Geirfa

Cyllideb, gwaith tîm, cyfathrebu

### Cyflwyniad/cyd-destun

Yn dilyn y gweithgaredd gyrfa blaenorol, tynnwch sylw at bwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu ar gyfer unrhyw yrfa.

Amlinellwch y gweithgaredd:

- Rhoddir cyllideb ddamcaniaethol o £10 i bob grŵp i brynu deunyddiau i adeiladu eu tŵr.
- Y deunyddiau y gallan nhw ddewis ohonynt yw:
    - ffyn sbageti heb eu coginio am 20c yr un, malws melys am 75c yr un a bandiau elastig am £1 yr un.
- Y grŵp sydd â'r tŵr annibynnol talaf a'r gyllideb fwyaf yn weddill sy'n ennill.
- Rhoddir amser i'r timau ddylunio a chynllunio cyn penderfynu sut i wario eu harian.
- Os byddan nhw'n cadw rhywfaint o'u cyllideb, byddan nhw'n cael un cyfle arall i brynu adnoddau ychwanegol hanner ffordd drwy'r gweithgaredd.

Amser 15 munud

### Amser dylunio

Rhowch bapur a phensiliau i bob tîm a rhowch amser iddyn nhw ddylunio eu tyrau a phenderfynu sut i wario eu cyllideb.

Amser 20 munud

### Adeiladu cyntaf

Rhowch amser i'r dysgwyr geisio rhoi eu dyluniadau ar waith.

Amser 5 munud

### Ailystyried

Gofynnwch i'r dysgwyr roi'r gorau i adeiladu a dychwelyd i'w dyluniadau. Rhowch amser iddyn nhw ailystyried a phrynu mwy o ddeunyddiau os oes angen.

Amser 20 munud

### Adeiladu terfynol

Rhowch amser i'r dysgwyr orffen neu ailwampio eu tyrau.

Amser 20 munud

### Casgliad

Un grŵp ar y tro, archwiliwch y tyrau ac adolygwch weddill y gyllideb. Dathlwch y tîm buddugol. Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r cardiau myfyrio. Ar ôl eu cwblhau, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar yr atebion maen nhw wedi'u hysgrifennu ac ystyried y sgiliau yn eu tîm.

# Adeiladu tŵr - Adnoddau

**Enw:**

Pa mor dda wnaeth ein dyluniad weithio? A wnaeth e weithio fel yr oeddem ni'n ei ddisgwyl?

A gawsoch **werth** da am eich **cyllideb**?

Beth oedd fy nhîm wedi ei wneud yn dda?

Beth oeddwn i wedi ei wneud yn dda?

Beth fyddwn i'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

# Adeiladu tŵr - Adnoddau

**Enw:**

Pa mor dda wnaeth ein dyluniad weithio? A wnaeth e weithio fel yr oeddem ni'n ei ddisgwyl?

A gawsoch **werth** da am eich **cyllideb**?

Beth oedd fy nhîm wedi ei wneud yn dda?

Beth oeddwn i wedi ei wneud yn dda?

Beth fyddwn i'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?